

Canllaw i bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU



**Dydd Iau 8 Mehefin yw'r diwrnod
pleidleisio**

Sut i ddefnyddio'r ddogfen



Dyma fersiwn hawdd ei ddarllen. Mae'r geiriau a'r ystyr yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall.



Efallai bydd angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun ry'ch chi'n adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd rhai geiriau yn anodd eu deall. Ry'n ni wedi rhoi'r geiriau caled mewn bold ac wedi dweud beth maen nhw'n golygu.

Hefyd, mae rhestr o'r **geiriau anodd** ar **dudalen 19**.

Y
Comisiwn
Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol, Mencap Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru sydd wedi gwneud y canllaw yma.



Cafodd ei ddiweddarau yn Mai 2017.

Cynnwys


Tudalen

Beth yw etholiad cyffredinol Senedd y DU?.....	4
Alla i bleidleisio?.....	5
Sut ydw i'n rhoi fy enw ar y rhestr?.....	6
Sut ydw i'n pleidleisio yn yr etholiad?.....	7
a) Mynd i orsaf bleidleisio	
• Ble mae fy ngorsaf bleidleisio?.....	8
• beth sy'n digwydd mewn gorsaf bleidleisio?.....	9
• Pa help alla i gael yn yr orsaf bleidleisio?.....	11
b) Anfon eich pleidlais yn y post	
• Sut ydw i'n gofyn i bleidleisio drwy'r post?.....	12
• Sut ydw i'n pleidleisio drwy'r post?.....	14
c) Gofyn i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drosoch chi	
• Sut ydw i'n gofyn i rywun bleidleisio drosta i?.....	15
• Sut mae rhywun yn pleidleisio drosta i?.....	16
Am bwy ddylwn i bleidleisio?.....	17
• Darllen beth mae gwahanol bleidiau yn dweud....	17
• Gofyn cwestiynau i bobl.....	17
• Mynd i gyfarfod.....	18
Geiriau caled.....	19

Beth yw etholiad lleol cyffredinol Senedd y DU?



Yn yr **etholiad** yma mae pobl yn dewis **Aelod Seneddol** ar gyfer yr ardal lle mae nhw'n byw.



Gallwch benderfynu pa bobl sy'n rhedeg y wlad drwy bleidleisio.




Dyddiad pwysig

Dydd Iau 8 Mehefin yw'r diwrnod pleidleisio.

Alla i bleidleisio?



Gall unrhyw un sydd wedi cofrestru i bleidleisio ac sydd yn 18 oed neu'n hŷn bleidleisio ddydd Iau 8 Mehefin 2017.



Rhaid i chi roi eich enw ar y rhestr o bobl sy'n gallu pleidleisio. Enw'r rhestr yw'r **gofrestr etholiadol**.



Efallai eich bod chi ar y rhestr os ydych chi wedi pleidleisio o'r blaen. Gallwch ffonio eich cyngor lleol i weld.



Allwch chi ddim pleidleisio os nad ydych chi ar y rhestr!

Sut ydw i'n rhoi fy enw ar y rhestr?



Gallwch ddefnyddio'r we i roi eich enw ar y rhestr. Gallwch ofyn i rywun helpu chi gyda hyn. Y wefan yw www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio



Gallwch hefyd lenwi ffurflen bapur i gofrestru i bleidleisio. Gallwch gael y ffurflen o'r wefan www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Os nad yw'r we gyda chi, gallwch gysylltu â Mencap Cymru. Byddan nhw'n anfon y ffurflen i chi ei llenwi.



Ffôn: 020 696 6009



E-bost: campaigns@mencap.org.uk



Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen ac anfon y ffurflen yn ôl at eich cyngor lleol.



Dyddiad pwysig

Mae'n rhaid i chi roi eich enw ar y rhestr erbyn **Dydd Llun 22 Mai**.



Sut ydw i'n pleidleisio yn yr etholiad?

Mae 3 ffordd i bleidleisio:



a) Mynd i orsaf bleidleisio i bleidleisio



b) Anfon eich pleidlais yn y post



c) Gofyn i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drosoch chi

a) Mynd i orsaf bleidleisio i bleidleisio


Ble mae fy ngorsaf bleidleisio?



Gorsaf bleidleisio yw enw'r adeilad lle ydych chi'n pleidleisio.



Fel arfer ysgol neu adeilad cymunedol yw hwn yn agos i le'r ydych yn byw. Ond, gallan nhw fod mewn pob math o lefydd.



Bydd eich **cerdyn pleidleisio** yn cael ei anfon at eich cartref ychydig wythnosau cyn y diwrnod pleidleisio. Bydd yn edrych fel hyn.

Bydd yn dweud ble i fynd i bleidleisio.




Dyddiad pwysig

Dydd Iau 8 Mehefin yw'r diwrnod pleidleisio.

Beth sy'n digwydd mewn gorsaf pleidleisio?



Mae'r man pleidleisio ar agor o 7am nes 10pm.



Gall fod yn ddefnyddiol i fynd â'ch cerdyn pleidleisio gyda chi.



Ond bydd gofyn i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad.



Bydd y person wrth y ddesg yn rhoi eich papur pleidleisio i chi. Maen cael ei alw'n **bapur pleidleisio**. Bydd edrych fel hyn.



Ewch â'r papur pleidleisio i'r **bwth pleidleisio**.



Marciwch **X** yn erbyn y person rydych eisiau pleidleisio drosto.



Rhowch eich papur pleidleisio yn y bocs. Mae hwn yn cael ei alw yn **flwch pleidleisio**.

Pa help alla i gael yn yr orsaf bleidleisio?



Bydd pobl yn gweithio yn yr orsaf bleidleisio all eich help chi. Maen nhw yn annibynnol.




Gallwch chi ofyn iddyn nhw eich helpu i ddarllen a deall y papur pleidleisio.



Gallwch chi fynd â rhywun gyda chi i'ch helpu chi.



Bydd y person sy'n eich helpu chi yn gallu ysgrifennu ar eich papur pleidleisio os ydych chi eisiau iddyn nhw.



Efallai bydd y bobl sy'n gweithio yn yr orsaf bleidleisio yn gofyn i'r person sy'n eich helpu chi i lenwi ffurflen.



b) Anfon eich pleidlais yn y post

Sut ydw i'n gofyn i bleidleisio drwy'r post?

Gallwch ddewis i anfon eich pleidlais yn y post yn lle mynd i fan pleidleisio. Mae hyn yn cael ei alw yn **bleidlais bost**.



Os ydych chi am gael pleidlais bost mae'n rhaid i chi ofyn i wneud hyn.



Llenwch ffurflen yn dweud eich bod chi am bleidleisio drwy'r post. Mae'r ffurflen ar gael ar y we yn

<https://www.yourvotematters.co.uk/cymru/how-do-i-vote/voting-by-post>



Os nad yw'r we gyda chi, gallwch chi gysylltu gyda'ch swyddfa etholiadau lleol neu gallwch ffonio Mencap Cymru ar **020 696 6009** neu e-bostio campaigns@mencap.org.uk.



Byddan nhw'n anfon y ffurflen i chi ei llenwi.



Llenwch yr adran cyfeiriad ar y ffurflen.

Llenwch yr adran 'Amdanoch chi' ar y ffurflen. Ysgrifennwch eich enw.

Wedyn, llenwch yr adran 'Am faint ydych chi eisiau pleidlais bost?' Bydd angen i chi ddweud am faint yr hoffech bleidleisio drwy'r post.



Wedyn, llenwch yr adran 'Cyfeiriad ar gyfer y papur pleidleisio'. Ysgrifennwch y cyfeiriad yr ydych chi eisiau i'r papur pleidleisio gael ei anfon iddo.

Yn olaf, llenwch yr adran 'Eich datganiad'. Ysgrifennwch eich dyddiad geni, llofnodwch yn y blwch neu gwnewch eich marc ac ysgrifennwch y dyddiad y gwnaethoch lofnodi'r ffurflen.



Postiwch y ffurflen i'ch cyngor lleol.

Sut ydw i'n pleidleisio drwy'r post?



Bydd eich papur pleidleisio yn cael ei anfon yn y post. Bydd yn edrych fel hyn.



Marcwch **X** yn erbyn y person rydych eisiau pleidleisio drost o.



Bydd ffurflen arall i'w llenwi. Llofnodwch yn y blwch neu gwnewch eich marc ac ysgrifennwch eich dyddiad geni yn y blwch.



Postiwch eich papurau pleidleisio yn yr amlen am ddim.



Dyddiadau pwysig

Os ydych chi eisiau pleidleisio drwy'r post, mae angen i chi ofyn i wneud hyn erbyn **5pm dydd Mawrth 23 Mai**.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich papur pleidleisio yn ôl mewn digon o amser.



Mae'n rhaid iddyn nhw gyrraedd erbyn **10pm ddydd Iau ar 8 Mehefin**.

c) Gofyn i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drostoch chi



Sut ydw i'n gofyn i rywun bleidleisio drosta i?

Gallwch ofyn i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drostoch chi Mae hyn yn cael ei alw yn **bleidlais ddirprwy**.



Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen os ydych am i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drostoch chi. Mae'n rhaid i chi roi rheswm pam nad ydych chi'n gallu pleidleisio yn yr **orsaf bleidleisio**.



Mae'r ffurflen ar gael ar y we yn <https://www.yourvotematters.co.uk/cymru/how-do-i-vote/voting-by-proxy>



Os nad yw'r we gyda chi, gallwch chi gysylltu gyda'ch swyddfa etholiadau lleol neu gallwch gysylltu â Mencap Cymru.



Ffôn: 020 696 6009



E-bost: campaigns@mencap.org.uk



Byddan nhw'n anfon y ffurflen i chi ei llenwi.

Sut mae rhywun yn pleidleisio drosta i?



Penderfynwch pwy ydych chi am bleidleisio amdanynt.



Dywedwch wrth y person sydd yn pleidleisio ar eich rhan chi, pwy ydych chi am bleidleisio drostynt.



Bydd y person sydd yn pleidleisio drostoch chi yn mynd i'r orsaf bleidleisio. Byddan nhw'n pleidleisio ar eich rhan chi.

Dyddiadau pwysig



Os ydych am i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drostoch chi, mae'n rhaid i chi ofyn i wneud hyn erbyn **5pm ddydd Mercher 31 Mai**.



Os yw rhywun yn pleidleisio ar eich rhan chi, maen nhw'n mynd i'r man pleidleisio **ddydd Iau 8 Mehefin**.



Am bwy ddylwn i bleidleisio?

Mae hi'n gallu bod yn anodd gwybod pwy i bleidleisio drostyn nhw. Dyma rai pethau gallwch chi wneud i'ch helpu i benderfynu.

Darllen beth sydd gan wahanol bleidiau i ddweud



Bydd pobl a phleidiau yn aml yn anfon taflen yn y post atoch chi yn dweud beth fyddan nhw'n gwneud os byddan nhw'n ennill.



Mae pleidiau hefyd yn ysgrifennu lawr beth maen nhw'n meddwl am bethau fel ysgolion ac ysbytai. Mae hyn yn cael ei alw yn **manifesto**.



Mae rhai pleidiau yn ysgrifennu fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'u manifesto hefyd. Gallwch edrych am y rhain ar y we.



Gofynnwch gwestiynau i bobl

Gallwch ofyn i ffrindiau, teulu a gweithwyr cymorth am yr etholiad.



Efallai bydd pobl yn dod i'r drws neu'n ffonio chi ar y ffôn i ofyn i bwy rydych chi'n pleidleisio. Gallwch ofyn cwestiynau i'r bobl hyn hefyd.

Does dim rhaid i chi ddweud wrth unrhyw un pwy ry'ch chi'n pleidleisio drostyn nhw.

Mynd i gyfarfod



Gallwch fynd i gyfarfod i siarad gyda gwleidyddion.



Gallwch wybod beth maen nhw'n meddwl am bethau sy'n bwysig i chi.



Gallwch ddarganfod beth fydden nhw'n gwneud os byddant yn cael eu hethol.



Gallai hyn eich helpu i benderfynu pwy ydych chi am bleidleisio amdanynt.



Cysylltwch â Mencap Cymru i weld os oes cyfarfod yn eich ardal chi.



Ffôn: 020 696 6009



E-bost: campaigns@mencap.org.uk



Geiriau caled

Mae llawer o eiriau caled i wneud gyda'r etholiadau. Dyma rhai ohonyn nhw a beth maen nhw'n golygu.




Blwch pleidleisio

Y blwch yr ydych chi'n rhoi eich papur pleidleisio ynddo ar ôl pleidleisio.



Bwth pleidleisio

Y ddesg lle rydych yn ysgrifennu ar eich papur pleidleisio.



Cerdyn pleidleisio

Y cerdyn sy'n dweud lle dylech chi fynd i bleidleisio.



Etholiad

Pan mae pobl yn pleidleisio ar rywbeth.



Gorsaf Bleidleisio

Yr adeilad lle ydych chi'n pleidleisio. Mae fel arfer yn rhywle fel ysgol neu neuadd gymuned



Manifffesto

Llyfryn sy'n dweud beth fydd plaid yn gwneud os ydyn nhw yn gwneud llywodraeth.



Papur pleidleisio

Lle ydych chi'n rhoi eich pleidlais.



Plaid

Grŵp o bobl sy'n credu'r un peth am nifer o faterion.




Pleidlais bost

Anfon eich pleidlais mewn llythyr.



Pleidlais drwy ddirprwy

Gofyn i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio drostoch chi.



Y gofrestr etholiadol

Rhaid i chi roi eich enw ar y rhestr o bobl sy'n gallu pleidleisio. Enw'r rhestr yw'r gofrestr etholiadol.